

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynadledda drwy Zoom P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 29 Ionawr 2024 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (13.30)

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 – 13.35)

(Tudalen 1)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 1 – Adroddiad drafft

2.1 SL(6)446 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 – 13.40)

Dogfennau atodol:

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

3.1 SL(6)440 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

(Tudalennau 2 – 3)

[Gorchymyn](#)



[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 - Papur 2 - Adroddiad drafft

- 3.2 **SL(6)441 – Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 4 – 7)

[Gorchymyn](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 - Papur 3 - Adroddiad drafft

- 3.3 **SL(6)442 – Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 8 – 9)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 - Papur 4 - Adroddiad drafft

- 3.4 **SL(6)443 – Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024**

(Tudalennau 10 – 11)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 - Papur 5 - Adroddiad drafft

- 3.5 **SL(6)444 – Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 12 – 14)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 - Papur 6 - Adroddiad drafft

3.6 SL(6)448 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024

(Tudalennau 15 – 19)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 7 – Adroddiad drafft

LJC(6)-04-24 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i'r Llywydd, 17 Ionawr 2024

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes
(13.40 – 13.45)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

4.1 SL(6)437 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023

(Tudalennau 20 – 24)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 9 – Adroddiad

LJC(6)-04-24 – Papur 10 – Ymateb Llywodraeth Cymru

5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes
(13.45 – 13.50)

6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol
(13.50 – 13.55)

6.1 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

(Tudalennau 25 – 28)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 11 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 24 Ionawr 2024

LJC(6)-04-24 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Ionawr 2024

6.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Darpariaeth) 2023

(Tudalen 29)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 13 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 25 Ionawr 2024

7 Papurau i'w nodi

(13.55 – 14.00)

7.1 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Dyfodol cyfraith Cymru – rhaglen ar gyfer 2021 i 2026

(Tudalennau 30 – 43)

[Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 14 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Ionawr 2024

LJC(6)-04-24 – Papur 15 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Ionawr 2024

7.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Bil Seilwaith (Cymru)

(Tudalennau 44 – 49)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 22 Ionawr 2024

**7.3 Gohebiaeth gyda Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd:
Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE**

(Tudalennau 50 – 53)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 17 – Llythyr gan Gadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, 23 Ionawr 2024

LJC(6)-04-24 – Papur 18 – Llythyr at Gadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, 19 Rhagfyr 2023

7.4 Gohebiaeth gyda'r Pwyllgor Busnes: Adolygiad o Reol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

(Tudalennau 54 – 57)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 19 – Llythyr gan y Pwyllgor Busnes, 24 Ionawr 2024

LJC(6)-04-24 – Papur 20 – Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 28 Medi 2023

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

9 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)

(14.00 – 14.10)

(Tudalennau 58 – 63)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 21 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

10 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25

(14.10 – 14.25)

(Tudalennau 64 – 88)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 – Papur 22 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-04-24 – Papur 23 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y

Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-04-24 - Papur 24 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y

Cyfansoddiad, 17 Ionawr 2024

LJC(6)-04-24 - Papur 25 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y

Cyfansoddiad, 10 Hydref 2023

11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cerbydau

Awtomataidd

(14.25 - 14.35)

(Tudalennau 89 - 97)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-04-24 - Papur 26 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

12 Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol: Diweddariad

(14.35 - 14.40)

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 29 Ionawr 2024

SL(6)446 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn rhoi effaith i ryddhad newydd rhag atebolrwydd am ardrethi annomestig. Mae'r rheoliadau yn rhagnodi amodau sydd i'w bodloni i fod yn gymwys i gael rhyddhad rhwydweithiau gwresogi ac yn diffinio ystyr rhwydwaith gwresogi fel cyfleuster sy'n cyflenwi ynni thermol o ffynhonnell ganolog i leoliadau eraill, at ddibenion gwresogi gofod, oeri gofod, neu wresogi dŵr domestig.

Yn Neddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023"), a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023, gwnaed darpariaeth ar gyfer rhyddhad llawn newydd rhag atebolrwydd am ardrethi annomestig i rwydweithiau gwresogi cymwys. Roedd Deddf 2023 yn mewnosod Atodlen 4ZA yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer y rhyddhad newydd rhag ardrethi annomestig i rwydweithiau gwresogi. Bydd y darpariaethau newydd yn cael effaith mewn perthynas â blynyddoedd ariannol o 1 Ebrill 2024.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

Fe'u gwnaed ar: 15 Ionawr 2024

Fe'u gosodwyd ar: 17 Ionawr 2024

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2024



Eitem 3.1

SL(6)440 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

Cefndir a Diben

Mae gan rai tenantiaethau amaethyddol hawliau olynu. Yn yr achosion hyn, o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ('Deddf 1986'), gall perthynas agos i'r tenant ymadawedig neu'r tenant sy'n ymddeol wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol ('TTA') am gyfarwyddyd ynghylch a oes gan y berthynas yr hawl i olynu i'r denantiaeth. Un o'r profion wrth sefydlu hawl olynu yw bodloni'r TTA nad yw'r ymgeisydd eisoes yn meddiannu "uned fasnachol o dir amaethyddol" mewn man arall. Pe bai hyn yn wir, ni fyddai'r berthynas agos yn gymwys i gael olyniaeth yn awtomatig.

Mae'r Gorchymyn yn nodi ffigurau ar gyfer incymau amaethyddol sy'n gysylltiedig ag amryfal weithgareddau ffermio ac fe'u defnyddir wrth benderfynu a yw'r tir dan sylw yn "uned fasnachol o dir amaethyddol" yn ystod y cyfnod perthnasol.

Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2023 sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2022 a 11 Medi 2023. Mae'r Gorchymyn hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2023 a 11 Medi 2024.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. Rheolau Sefydlog 21.2(x): Ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth eu cyhoeddi neu wrth eu gosod gerbron y Senedd.

Mae paragraffau 3 i 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r materion a ganlyn o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor hwn:

"3. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf 1986 i Weinidogion Cymru ragnodi drwy Orchymyn, unedau cynhyrchu o'r fath sy'n ymwneud â thir amaethyddol yr ystyrir eu bod yn briodol, am gyfnod o ddeuddeng mis a bennir yn y gorchymyn. Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2023 sy'n cwmpasu'r



cyfnod rhwng 12 Medi 2022 a 11 Medi 2023. O ystyried na all y TTA benderfynu ar achosion olyniaeth berthnasol heb y ffigurau perthnasol, rhaid cael Gorchymyn Unedau Cynhyrchu i gwmpasu'r cyfnod o 12 mis rhwng 12 Medi 2023 a 11 Medi 2024.

4. Yn hanesyddol, mae Gorchymynion Unedau Cynhyrchu bob amser yn cynnwys elfen ôl-weithredol oherwydd mae'n dibynnu ar bryd mae'r ystadegau sylfaenol ar gael gan DEFRA, ac yna mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu trin er mwyn llunio'r ffigurau perthnasol ar gyfer Cymru. Nid oedd y ffigurau hyn ar gael tan 13 Medi 2023. (Ychwanegwyd pwyslais).
5. Mae achosion sydd wedi symud ymlaen i'r TTA ers 12 Medi 2023 wedi'u gohirio tan i'r Gorchymyn gael ei wneud. Ar hyn o bryd mae chwe chais a fyddai'n cael eu heffeithio gan Orchymyn newydd.
6. Bydd angen i'r ddeddfwriaeth fod yn gymwys yn ôl-weithredol rhwng 12 Medi 2023 a dyddiad dod i rym y Gorchymyn. Caniateir hyn yn benodol gan baragraff 4b o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 sy'n darparu y bydd y Gweinidog drwy orchymyn, am unrhyw gyfnod o 12 mis a bennir yn y gorchymyn, yn penderfynu mewn perthynas ag unrhyw unedau cynhyrchu rhagnodedig y swm sydd i'w ystyried fel yr incwm blynyddol net o'r uned honno yn y cyfnod hwnnw."

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod sawl achos olyniaeth a ddygwyd gan unigolion ledled Cymru i bob pwrpas wedi'u gohirio ers mis Medi 2023 gan eu bod wedi gorfod aros am y ffigurau newydd a ddarperir gan y Gorchymyn hwn i ddatrys eu hawliadau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru aros am y data perthnasol gan DEFRA cyn i'r Gorchymyn gael ei ddrafftio. Fodd bynnag, daeth y data hyn i law ar 13 Medi 2023. Nid yw'n glir pam mae pum mis arall wedi mynd heibio erbyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, ac yn ystod y cyfnod hwnnw nid yw unigolion wedi gallu bwrw ymlaen â'u hachosion olyniaeth.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Ionawr 2024



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 3

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 3.2

SL(6)441 – Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024

Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (sy'n nodi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)) ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (sy'n nodi Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)) i estyn y cyfnod y mae gan bersonau a gyflogid yng Nghymru fel diffoddwyr tân wrth gefn fynediad i gynllun pensiwn ynddo.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i ganiatáu gwneud dyfarndaliadau mewn perthynas ag anaf a gafwyd tra bo person yn cyflawni dyletswyddau penodol heblaw ymladd tân o dan gyflogaeth eilaidd dros dro gyda'r un awdurdod tân ac achub. Yn yr achosion hynny, bydd unrhyw anaf yn cael ei drin fel pe bai yn anaf a gafwyd o dan brif gyflogaeth y person, ac o ganlyniad bydd dyfarndaliad yn seiliedig ar wasanaeth a thâl o dan y brif gyflogaeth honno. Mae'r diwygiadau hefyd yn darparu, pan fo person yn cyflawni dyletswyddau o dan gyflogaeth eilaidd wrth gefn gyda'r un awdurdod tân ac achub, y caiff unrhyw anaf ei drin fel pe bai'n anaf a gafwyd o dan gyflogaeth reolaidd y person. Ystyr hwn yw y bydd dyfarndaliad yn seiliedig ar wasanaeth a thâl y person o dan y contract gwasanaeth rheolaidd hwnnw.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 6 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft

Yn erthygl 3(1) o'r Gorchymyn, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg o ran y cyfeiriad at bennawd Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992.



Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "the Firefighters' Pension Scheme", ac mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 1(2)(a), disgrifir y diffiniadau newydd fel rhai sydd wedi'u mewnosod "yn y lle priodol" yn rheol 2(1) o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru). Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, nid yw'r diffiniadau wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor. Dylai'r ail ddiffiniad "cyfnod cyflogaeth arbennig" ymddangos cyn y diffiniad cyntaf "cyfnod cyfyngedig estynedig".

Gallai hyn ddrysu'r cyfarwyddyd i fewnosod y diffiniadau yn y lle priodol yn rheol 2(1) o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) yn y testun Cymraeg.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 6(3), yn y rheol 5C(7) newydd, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Yn y testun Saesneg, dywed "Where the authority **do not** hold records of that person's pay for that period..." (pwyslais wedi'i ychwanegu). Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg cyfatebol, cyfieithir y geiriau hynny fel "Pan **oes** gan yr awdurdod gofnodion o dâl y person hwnnw am y cyfnod hwnnw..." (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae hyn yn golygu bod gan destun y ddwy iaith ystyr gyferbyniol ac maent yn gwrth-ddweud ei gilydd.

4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 6(3), yn y rheol 5C(8) newydd, cyfeirir at "diffoddwr tân **cymwys** rheolaidd amser-cyflawn" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Dyma'r unig achlysur y defnyddir "diffoddwr tân **cymwys** rheolaidd" (pwyslais wedi'i ychwanegu), yn hytrach na'r term diffiniedig "diffoddwr tân rheolaidd" (fel y'i diffinnir yng Nghynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)).

Mae angen rhagor o wybodaeth ynghylch a yw'r term annifiniedig hwn yn cael ei ddefnyddio'n fwiadol ac, os felly, pam nad yw'r term wedi'i ddiffinio at ddibenion Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru).

5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 7(3), mae'r geiriau agoriadol yn datgan bod y diwygiadau dilynol sy'n dwyn y rhif fel paragraffau (a) i (c) yn cael eu gwneud. "Yn rheol 16..." (o Ran 12 o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)). Fodd bynnag, ym mharagraff 7(4), gwneir diwygiad pellach i baragraff arall yn yr un rheol ond heb nodi bod y paragraff sydd i'w ddiwygio i'w gael hefyd yn rheol 16 o Ran 12.



Felly, mae strwythur y paragraff yn anghywir a dylai paragraff 7(4) fod wedi'i rifo fel paragraff (d) o baragraff 7(3) yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn. Byddai angen addasu rhif yr is-baragraffau dilynol ym mharagraff 7 hefyd i ddilyn yr ailrifo hwn.

Mae gwall tebyg hefyd yn digwydd ym mharagraff 7(6) a (7) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn, lle dylai is-baragraff (7) fod wedi'i rifo fel paragraff 7(6)(d), gyda'r is-baragraffau dilynol wedi'u hailrifo i hwyluso'r cywiriad hwn.

6. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn, ym mhennawd paragraff 1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "Part 1" ond yn y testun Cymraeg y cyfieithiad yw "Atodlen 1".

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r enw a ddefnyddir i gyfeirio at y cynllun pensiwn a nodir yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 yn anghyson yn y testunau Cymraeg a Saesneg.

Enw cyfreithiol cywir y cynllun yw Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru), fel y'i hailenwyd gan Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004.

Fodd bynnag, i ddefnyddio enghreifftiau yn y testun Saesneg, yn Nodyn Esboniadol y Gorchymyn cyfeirir at Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) fel "*the Firefighters' Pension Scheme (Wales) 1992*". Tra yn nhroednodyn (1) ar dudalen 4 o'r Gorchymyn, cyfeirir at y Cynllun fel "*the 1992 Firefighters' Pension Scheme*".

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymhleth ac yn dechnegol ei natur ac ystyrir bod defnyddio enwau gwahanol i gyfeirio at yr un cynllun pensiwn yn debygol o achosi dryswch i'r darlennydd.

8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn, ym mharagraff 2.1:

"Bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi na chafodd Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) 1992 na Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 eu creu yn ddwyieithog, a dyna'r rheswm dros ffurf Gorchymynion 2024 sy'n diwygio'r gorchymynion cynharach hynny. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu na fyddai'n gymesur dirymu Gorchymyn 1992 na Gorchymyn 2007 a'u hail-wneud yn ddwyieithog."



Fel eglurhad (ar wahân i'r pwynt sylweddol a eglurir yn y Memorandwm Esboniadol), dylid nodi y dylai'r cyfeiriad uchod at "*Firefighters' Pension (Wales) Scheme Order 1992*" yn hytrach fod yn gyfeiriad at "*Firemen's Pension Scheme Order 1992*", a wnaed yn uniaith. Fel yr eglurwyd, gwnaed Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 yn uniaith hefyd. Gwnaed Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 yn ddwyieithog.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 i 7.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Ionawr 2024



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 7

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 3.3

SL(6)442 - [Rheoliadau Ysgolion Annibynnol \(Darparu Gwybodaeth\) \(Cymru\) 2024](#)

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â cheisiadau i gofrestru ysgolion annibynnol o dan adran 160(1) o Ddeddf Addysg 2002 ac â gwybodaeth sydd i'w darparu yn gyfnodol gan berchnogion ysgolion annibynnol o dan adran 168 o'r Ddeddf honno.

Mae rheoliad 2 a Rhan 1 o'r Atodlen yn cynnwys darpariaethau dehongli.

Mae rheoliad 3 a Rhan 2 o'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ar gyfer ffurf a chynnwys cais i gofrestru ysgol annibynnol o dan adran 160(1) o Ddeddf Addysg 2002.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno gan berchennog ysgol annibynnol ddatganiad cychwynnol o fewn 90 o ddiwrnodau i'r dyddiad derbyn neu, os yw'n ddiweddarach, i gais gan yr awdurdod cofrestru. Mae Rhan 3 o'r Atodlen yn rhagnodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad cychwynnol.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno gan berchennog ysgol annibynnol ddatganiadau blynyddol i'r awdurdod cofrestru. Mae Rhan 4 o'r Atodlen yn rhagnodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad blynyddol.

Mae rheoliad 6 yn darparu y caiff yr awdurdod cofrestru, os yw wedi ei fodloni bod perchennog ysgol annibynnol wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn rheoliad 4 neu 5, ddileu'r ysgol o'r gofrestr. Mae rheoliad 7 yn darparu ei bod yn drosedd i berchennog ysgol annibynnol fethu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn rheoliad 4 neu 5.

Mae rheoliad 8 yn dirymu Rheoliadau 2003. Mae rheoliadau 9, 10 ac 11 yn dirymu offerynnau a darpariaethau eraill sy'n diwygio naill ai Rheoliadau 2003 neu Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer Rheoliadau 2003 mewn achosion pan fo datganiad cychwynnol yn ofynnol cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym neu pan ofynnir am ddatganiad blynyddol cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Mae'r Rheolau Mewnfudo, y cyfeirir atynt ym mharagraff 32 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, i'w gweld yn <https://www.gov.uk/guidance/immigrationrules/immigration-rules-index>.

Gweithdrefn

Negyddol



Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Rheoliadau yn cyfeirio at gais ar-lein y gellir ei gyrchu o dudalennau'r wefan a gynhelir gan Lywodraeth Cymru. O ran hygyrchedd, efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r darllenydd gael hyperlinc i'r cais yn y Memorandwm Esboniadol neu'r Nodiadau Esboniadol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

24 Ionawr 2024



Eitem 3.4

SL(6)443 – Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn nodi'r safonau sydd i'w cyrraedd gan ysgolion annibynnol at ddibenion cofrestru, adrodd ac arolygu yn unol â Deddf Addysg 2002 ("Deddf 2002").

Mae'r Rheoliadau yn dirymu ac yn disodli'r Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 presennol.

Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau yn nodi'r safonau yn unol a'r categorïau a bennir yn adran 157(1) o Ddeddf 2002:

- Ansawdd yr addysg a ddarperir,
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion,
- Lles, iechyd a diogelwch disgyblion,
- Addasrwydd perchnogion, staff a staff cyflenwi,
- Mangreoedd ysgolion a llety byrddio mewn ysgolion annibynnol,
- Darparu gwybodaeth,
- Y dull o ymdrin â chwynion.

Ymhlith pethau eraill, mae'r safonau hyn yn:

- Cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn fwy aml, sef bob tair blynedd;
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol fynd ati i hybu gwybodaeth am Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dealltwriaeth ohoni,
- Ei gwneud yn glir mai perchennog ysgol annibynnol sy'n gyfrifol am gydymffurfio â safonau yn y pen draw,
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol roi ar gael i rieni a, phan fo hynny'n briodol, i awdurdodau lleol wybodaeth benodol fel dyddiadau tymhorau ac adroddiadau arolygu.

Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu



Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r Rheoliadau yn becyn sy'n mynd i'r afael â diffygion yn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Yn benodol, mae paragraff 20 o'r Memorandwm Esboniadol yn darparu:

Mae Gweinidogion Cymru wedi cydnabod y diffygion hyn yn y fframwaith rheoleiddio a'r ffordd y gellir gorfodi'r Safonau drwy ymateb i adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o sut y mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau o dan adran 72 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, lle cafodd yr angen am ddiwygio sylfaenol i ddiweddarau'r system reoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol ei gydnabod. Gwnaed yr un ymrwymiad i adolygu'r Rheoliadau Ysgolion Annibynnol yn ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2020-21 ac yn yr ymateb i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

24 Ionawr 2024



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 11

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 3.5

SL(6)444 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol **(Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli)** **(Cymru) 2024**

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn rhagnodi ar ba seiliau y caniateir i gyfarwyddyd gael ei roi o dan adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 ("cyfarwyddyd adran 167A") sy'n gwahardd person rhag cymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol yng Nghymru, neu sy'n cyfyngu ar allu person i wneud hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer rhoi cyfarwyddyd adran 167A, yr amgylchiadau y caniateir i gyfarwyddyd adran 167A gael ei amrywio neu ei ddirymu odanynt a darpariaeth ynghylch apelau mewn cysylltiad â chyfarwyddydau adran 167A.

Caniateir i gyfarwyddydau adran 167A gael eu rhoi mewn cysylltiad â pherson sydd wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol, sydd wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, neu sy'n ddarostyngedig i ganfyddiad perthnasol mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, neu sydd wedi ymgymryd ag ymddygiad perthnasol, os yw'r awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru) yn ystyried bod y person felly yn anaddas i gymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol (rheoliad 2). Mae adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu'r pwerau i'r "appropriate authority" i ddyroddi cyfarwyddyd. Ystyr "appropriate authority" ("awdurdod priodol") yw awdurdod cofrestru neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall a ragnodir. Yr awdurdod cofrestru yw Gweinidogion Cymru ac felly yr awdurdod priodol at ddibenion y cyfarwyddyd adran 167A yw Gweinidogion Cymru.

Mae rheoliad 2 yn rhagnodi ar ba seiliau y caniateir i gyfarwyddyd adran 167A gael ei roi ac yn disgrifio'r hyn a olygir gan drosedd berthnasol, canfyddiad perthnasol, ac ymddygiad perthnasol at y diben hwn. Mae rheoliad 2 hefyd yn darparu bod cyfeiriadau at euogfarnau a rhybuddiadau yn cynnwys y rheini sydd wedi eu disbyddu ar yr amod bod gorchymyn wedi ei wneud sy'n eithrio gweithredu darpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 sy'n gwahardd euogfarnau a rhybuddiadau sydd wedi eu disbyddu rhag cael eu defnyddio fel sail dros eithrio person o unrhyw swydd, proffesiwn, galwedigaeth neu gyflogaeth.

Cyn gwneud cyfarwyddyd adran 167A, rhaid i'r awdurdod priodol roi cyfle i'r person i gyflwyno sylwadau o ran pam na ddylid rhoi'r cyfarwyddyd a hysbysiad am y cyfle hwnnw (rheoliad 3). Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhoi'r hysbysiad a'r cyfnod y caniateir i sylwadau gael eu cyflwyno ynddo. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i hysbysu person y mae cyfarwyddyd adran 167A wedi ei wneud mewn cysylltiad ag ef.

Caiff yr awdurdod priodol amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd pan fo person yn ceisio ei gael wedi ei ddirymu ar un o'r seiliau a nodir yn rheoliad 5, neu pan na fo person yn ceisio ei gael



wedi ei amrywio neu wedi ei ddirymu, pan fo gwybodaeth newydd yn dod i law neu pan fo newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r person sy'n ddarostyngedig i'r cyfarwyddyd, ar yr amod ym mhob achos fod yr awdurdod priodol yn ystyried ei bod yn briodol ei amrywio neu ei ddirymu (rheoliad 4).

O dan reoliad 5, caiff person sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd adran 167A geisio ei gael wedi ei amrywio neu wedi ei ddirymu ar y sail bod yr euogfarn, y rhybuddiad neu'r canfyddiad o dan sylw wedi ei diddymu neu wedi ei ddisbyddu, bod yr euogfarn neu'r rhybuddiad o dan sylw wedi ei disbyddu neu wedi ei ddisbyddu neu'n dod yn warchoddedig, neu fod cyfnod o bum mlynedd wedi mynd heibio ers i'r canfyddiad o dan sylw gael ei wneud. Caiff person sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd ar sail ymddygiad geisio ei gael wedi ei amrywio neu wedi ei ddirymu ar y sail bod gwybodaeth newydd wedi dod i law neu pan fo newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r person sy'n ddarostyngedig i'r cyfarwyddyd.

Mae adran 167B(1) o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau mewn cysylltiad â chyfarwyddydau adran 167A. Mae rheoliad 6 yn cynnwys cyfyngiad ar bŵer y Tribiwnlys Haen Gyntaf i ystyried apelau mewn perthynas â chyfarwyddydau adran 167A a roddir ar sail euogfarnau. Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer pwerau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar ganiatáu apêl mewn perthynas â chyfarwyddyd adran 167A. Pan fo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn ystyried nad yw'r penderfyniad i roi'r cyfarwyddyd, neu nad yw'r penderfyniad i beidio â'i amrywio neu ei ddirymu, yn briodol caiff orchymyn i'r awdurdod priodol amrywio neu ddirymu'r cyfarwyddyd.

Mae rheoliad 8 yn nodi'r amgylchiadau y bydd person sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002 yn union cyn i adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 ddod i rym yn cael ei drin fel pe bai'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd adran 167A gan ddechrau â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau i rym.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Chwefror 2024 a chânt eu gosod fel rhan o gyfres o reoliadau gyda Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2024.

Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Defnyddir y term "the appropriate authority" drwy gydol y Rheoliadau hyn, ond nid yw wedi'i ddiffinio ac ni roddwyd ystyr iddo. Nid yw'r ystyr a roddir gan ddiffiniad "the appropriate authority" yn adran 167A(6)(b) o Ddeddf Addysg 2002 ymhlyg yn y Rheoliadau hyn gan nad yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978 (gweler *Drafftio Deddfau i Gymru*, 4.12). Yn ogystal, ni fydd yr ystyr a roddir i'r term yn y Nodyn Esboniadol ac yn nhroednodyn (1) ar dudalen 4 yn diffinio "the appropriate authority" at ddibenion y Rheoliadau hyn gan nad ydynt yn rhan weithredol o'r offeryn. Felly, dylai'r term "the appropriate authority" fod wedi cael ei ddiffinio yn rheoliad 1(2) oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio drwy'r Rheoliadau hyn i gyd.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn nodi cymhlethdod y Rheoliadau hyn, a'r anhawster posibl o ran eu dehongli a'u cymhwyso oherwydd eu cynnwys a natur y drafftio. O'r herwydd, rydym yn falch o nodi paragraff 62 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n datgan, "*Cyhoeddir canllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol ochr yn ochr â'r Rheoliadau sy'n dod i rym yn gynnar yn 2024.*"

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt adrodd 1.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Ionawr 2024



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 14

Legislation, Justice and Constitution Committee

SL(6)448 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024

Cefndir a Diben

Mae Deddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023") yn gweithredu nifer o newidiadau i'r system ardrethu annomestig yng Nghymru a Lloegr.

Daeth Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") i rym ar 27 Hydref 2023 a gwnaethant ddiwygiadau technegol i is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â Chymru sy'n ganlyniadol ar Ddeddf 2023.

Mae'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn mynd i'r afael â materion a godwyd yn y tri phwynt adrodd technegol yn adroddiad [ar Reoliadau 2023](#) y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Dylai diwygiadau penodol a wneir gan Reoliadau 2023 fod wedi'u mynegi fel rhai sy'n cael effaith ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny. Yn hytrach, daeth y darpariaethau hyn i rym o'r dyddiad y daeth Rheoliadau 2023 i rym, sef 27 Hydref 2023.

Mae'r Rheoliadau yn datrys y mater hwn drwy:

- ailddatgan y gyfraith fel yr oedd yn gymwys cyn 27 Hydref 2023 gan ddod i rym ar unwaith (Rhan 2), ac
- ail-wneud y diwygiadau yn Rheoliadau 2023 i ddod i rym o 1 Ebrill 2024 (Rhan 3).

Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn unol â rheoliad 1(3) a (4), daw Rhannau 1 a 2 o'r Rheoliadau i rym ar 19 Ionawr 2024 a daw Rhan 3 i rym ar 1 Ebrill 2024.

Mae'r wybodaeth dyddiad mewn ffont italig a nodir o dan deitl y Rheoliadau ond yn cyfeirio at 19 Ionawr 2024 fel y dyddiad dod i rym. Gofynnir i Lywodraeth Cymru pam nad yw hyn yn dilyn y fformat arferol ar gyfer offerynnau sydd â mwy nag un dyddiad dod i rym, naill ai trwy ddarparu bod y Rheoliadau yn dod i rym "yn unol â rheoliad 1(3) a (4)" neu drwy nodi'r ddau ddyddiad dod i rym ar wahân (gweler Ymarfer Offeryn Statudol ym mharagraff 3.10.4).

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodir bod y gyfraith, yng ngoleuni'r ffaith bod y diwygiadau yn Rheoliadau 2023 wedi'u cychwyn yn gynamserol, yn anghywir rhwng 27 Hydref 2023 a 19 Ionawr 2024 (sef y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym).

Mae paragraff 18 o'r Memorandwm Esboniadol yn darparu'r canlynol:

Caiff copïau o Reoliadau 2024 eu hanfon at holl dderbynwyr hysbys Rheoliadau 2023 yn rhad ac am ddim er mwyn sicrhau nad yw defnyddwyr y mae angen copi arnynt yn cael eu rhoi o dan anfantais drwy orfod talu amdano. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw effeithiau andwyol sy'n deillio o'r hepgoriadau yn Rheoliadau 2023. Byddai unrhyw effeithiau o'r fath wedi cael eu dwyn i sylw Llywodraeth Cymru gan randdeiliaid, yn enwedig awdurdodau bilio lleol.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn y torrir y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, mewn [llythyr at y Llywydd](#) dyddiedig 17 Ionawr 2024.

Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch yr angen i ddod â'r Rheoliadau i rym cyn gynted â phosibl er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad ar Reoliadau 2023, ac i sicrhau bod effaith polisi arfaethedig yr is-ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei chadw.



Cyfeirir at y mater brys hwn hefyd ym mharagraff 19 o'r Memorandwm Esboniadol fel rheswm ynghylch pam na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol yn unig.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Ionawr 2024



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—
Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 17

Legislation, Justice and Constitution Committee



Ein cyf/Our ref: MA-RE-3052-23

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

17 Ionawr 2024

Annwyl Elin

RHEOLIADAU ARDRETHU ANNOMESTIG (DIWYGIADAU AMRYWIOL A CHANLYNIADOL I IS-DDEDDFWRIAETH) (CYMRU) 2024

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 19 Ionawr, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Gwneir yr offeryn statudol hwn o dan y pwerau a ddarperir gan adrannau 43(4B)(b) a 44(9)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"), a pharagraffau 1 a 2(2)(a) ac (ga) o Atodlen 9 iddi, paragraff 8(1) a (4)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007(1), adran 236(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac adran 17(2) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023").

Diwygiodd Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") gyfeiriadau at Ddeddf 1988 mewn is-ddeddfwriaeth, o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2023. Dylai rhai o'r diwygiadau hyn fod wedi cael eu mynegi fel rhai sy'n cael effaith o flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, pan fydd darpariaethau perthnasol yn Neddf 2023 (er eu bod eisoes mewn grym) yn cael effaith. Cododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hyn a phwyntiau adrodd eraill yn eu hadroddiad ar Reoliadau 2023 a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai rheoliadau diwygio yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl mewn ymateb.

Mae Rheoliadau 2024 yn hepgor darpariaethau penodol yn rheoliadau 2 a 4, a rheoliad 5 o Reoliadau 2023 ac yn ailddatgan darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth benodol fel yr

(1) 2007 p. 9. Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan baragraff 8(1) o Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 i wneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

oeddent yn gymwys yn union cyn i reoliadau 2, 4 a 5 ddod i rym. Mae hefyd yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf 2023. Ystyrir bod angen dod â'r offeryn statudol hwn i rym cyn gynted â phosibl, i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a sicrhau bod effaith polisi arfaethedig yr is-ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei chadw.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd; Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Eitem 4.1

SL(6)437 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023

Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 (“y Prif Reoliadau”). Trafododd y Pwyllgor y Prif Reoliadau yn ei gyfarfod ar 25 Medi 2023. Gwnaed y Rheoliadau i gywiro gwallau o natur dechnegol, neu sy’n gysylltiedig â chonfensiwn drafftio, a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Prif Reoliadau.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i’r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd yr wyth pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft

Mae rheoliad 4(a) yn mewnosod diffiniad o “person awdurdodedig” yn y Prif Reoliadau. Mae testun Saesneg y diffiniad yn croesgyfeirio at bobl yn rhinwedd rheoliad **62(a) i (d)** o’r Rheoliadau Fferyllol, ond mae’r testun Cymraeg yn croesgyfeirio at bobl yn rhinwedd rheoliad **62(a) i (c)** o’r Rheoliadau Fferyllol. Nid yw’n glir pa fersiwn sy’n gywir, sy’n golygu bod y diffiniad o “person awdurdodedig” yn aneglur.

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 4(a) yn mewnosod diffiniad o “Cofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal” yn y Prif Reoliadau. Mae’r diffiniad hwn yn cyfeirio at “erthygl 5(1) o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 (cofrestru)”. Dylai’r gair rhwng cromfachau ddarllen “sefydlu a chynnal cofrestru” gan mai dyma deitl erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001. “Cofrestru” yw teitl erthygl 9.



3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 4(m)(i) yn diwygio'r diffiniad o "anghymhwysiad cenedlaethol" yn y Prif Reoliadau drwy roi'r gair "adran" yn lle "adrannau". Nid oes angen hyn gan fod geiriad y diffiniad yn dal i gyfeirio at adrannau lluosog hyd yn oed fel y'u diwygiwyd.

4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 16(b)(viii) yn datgan y dylid mewnosod y cyfeiriad "(p.14)" ar ôl "Deddf Nawdd Cymdeithasol 1998" yn Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau. Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol 1998 yn ymddangos ddwywaith yn Atodlen 1, felly dylai rheoliad 16(b)(viii) bennu a ddylid mewnosod y cyfeiriad yn yr achlysur cyntaf neu ym mhob achlysur y mae'n digwydd.

5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 16(b)(xii) yn mewnosod p. 22 fel y cyfeiriad ar gyfer Deddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985. Y cyfeiriad cywir yw p. 17. Yn yr un modd, mae rheoliad 16(b)(xv) yn mewnosod p. 28 fel y cyfeiriad ar gyfer Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Y cyfeiriad cywir yw p. 14.

6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 18(r) yn rhoi'r gair "is-baragraff" yn lle "baragraff" ym mharagraff 66(1) o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau. Fodd bynnag, mae'r gair "paragraph" yn ymddangos dair gwaith ym mharagraff 66(1) yn y fersiwn Saesneg ac nid yw'r diwygiad yn pennu ei fod ond yn gymwys i'r lle cyntaf y mae "paragraph" yn digwydd. Er bod y ddau ddefnydd arall o'r gair mewn is-baragraffau, maent yn dal i fod yn rhan o baragraff 66(1) ac felly dylid bod wedi'i gwneud yn glir bod y diwygiad ond yn gymwys i'r lle cyntaf y mae "paragraph" yn ymddangos. Byddai hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd yn rheoliad 18(ff).

7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Tynnodd pwynt adrodd 40 yn ein hadroddiad ar y Prif Reoliadau sylw at y ffaith bod Panel Addaswydd i Ymarfer bellach yn cael ei alw'n Dribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Mae rheoliad 18(nn)(ii)(cc) yn diwygio paragraff 117(6)(a) o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau i adlewyrchu'r newid hwn. Fodd bynnag, mae'r term "Addaswydd i Ymarfer" hefyd yn ymddangos ym mharagraff 117(6)(b) o'r Prif Reoliadau ac nid yw'r Rheoliadau yn diwygio'r geiriad hwn.

8. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 18(oo)(iii)(aa) yn mewnosod geiriad ym mharagraff 119(3)(v) o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau. Fel y'i diwygir, byddai geiriad paragraff 119(3)(v) yn darllen "mewn achos pan fo'r



contract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth neu gyda cwmni a phan fo un neu ragor o'r unigolion hynny wedi gwrthod cydymffurfio â chais gan y Bwrdd Iechyd Lleol i gael ei archwilio'n feddygol, bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod y contractwr yn cymryd camau digonol i ddelio â'r mater" (dangosir y geiriau ychwanegol mewn testun italig). Nid yw'n glir a fwriedir i'r geiriad ychwanegol ymwneud â'r bartneriaeth, y cwmni neu'r ddau. Os mai dim ond â'r bartneriaeth y bwriedir iddo ymwneud yna dylai'r geiriad newydd fod wedi'i ychwanegu ar ôl y gair "partneriaeth" yn hytrach na "cwmni". Os bwriedir iddo ymwneud â'r cwmni neu'r bartneriaeth a'r cwmni, yna byddai angen egluro pwy yn y cwmni fyddai'n gyfystyr â'r "unigolion".

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Yn ei hymateb i'n hadroddiad ar y Prif Reoliadau, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gwneud diwygiadau i gywiro'r materion a godwyd ym mhwyntiau 8 a 54 yn ein hadroddiad. Roedd pwynt 8 yn ymwneud â chyfeiriad at ddarpariaeth a ddiddymwyd yn y diffiniad o "optometrydd-ragnodydd annibynnol" yn y Prif Reoliadau a nododd pwynt 54 gyfeiriad anghywir at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn y Nodyn Esboniadol i'r Prif Reoliadau. Nid yw'r Rheoliadau yn gwneud y diwygiadau hyn.

10. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Pwyllgor yn nodi na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

Ni chynhadliwyd unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau diwygio gan nad yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud yn newid y polisi nac yn cael unrhyw effaith arno nac ar sut y caiff ei gymhwyso.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r pwyntiau adrodd ac eithrio'r un olaf.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023

Pwynt Craffu Technegol 1

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r anghysondeb yn y testun Cymraeg a bydd yn cysylltu â Chofrestrydd yr Offerynnau Statudol i ymchwilio i'r posibilrwydd o slip cywiro er mwyn i'r ddarpariaeth berthnasol gyfeirio at baragraff "(d)" yn hytrach nag "(c)".

Pwynt Craffu Technegol 2

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt hwn. Nid yw'r drafftio yn ei ffurf bresennol yn addasu'r diffiniad ac o ganlyniad nad oes angen diwygio.

Pwynt Craffu Technegol 3

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt hwn er nad yw'n ystyried ei fod yn effeithio'n sylweddol ar weithrediad y ddarpariaeth.

Pwynt Craffu Technegol 4

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt hwn. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ystyried nad oes angen cywiro.

Pwynt Craffu Technegol 5

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud diwygiad i'r prif Reoliadau pan ddaw'r cyfle.

Pwynt Craffu Technegol 6

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud diwygiad i'r prif Reoliadau pan ddaw'r cyfle.

Pwynt Craffu Technegol 7

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud diwygiad i'r prif Reoliadau pan ddaw'r cyfle.

Pwynt Craffu Technegol 8

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud diwygiad i'r prif Reoliadau pan ddaw'r cyfle.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 9

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt hwn, yn ailadrodd ei hymrwymiad i ddiwygio'r prif Reoliadau pan ddaw'r cyfle a bydd yn cysylltu â Chofrestrydd yr Offerynnau Statudol i ymchwilio i'r posibilrwydd a ellid defnyddio slip cywiro i gywiro'r ddwy ddarpariaeth.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Canlyniad trydydd cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
DYDDIAD	24 Ionawr 2024
GAN	Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 13 Rhagfyr 2023.

Yn Weinidog arweiniol ar gyfer y Grŵp hwn, gofynnais i'r Gweinidog Newid Hinsawdd fynychu'r cyfarfod ar ran Llywodraeth Cymru gan fod eitemau'r agenda yn dod o dan ei phortffolio hi.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Gweinidog Tai, Paul McLennan ASA a oedd yn bresennol ar ran Llywodraeth yr Alban. Cynrychiolwyd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gan Mark O'Donnell, y Dirprwy Ysgrifennydd Tai, Adfywio Trefol a Llywodraeth Leol; Paul Price, y Cyfarwyddwr Polisi Tai Cymdeithasol a David Polley, y Cyfarwyddwr Polisi Cyflenwad Tai. O Lywodraeth y DU, roedd Jacob Young, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro a Lee Rowley, y Gweinidog Gwladol dros Dai, Cynllunio a Diogelwch Adeiladau yn bresennol.

Croesawodd y grŵp gyflwyniad gan yr Athro Ken Gibb o Ganolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai (CaCHE) ar ymchwil ynghylch effeithiau rheoleiddio ar y Sector Rhentu Preifat, y materion a'r heriau.

Wedi'r cyflwyniad, cafodd y grŵp gyfle i drafod yr heriau y mae pob llywodraeth yn eu hwynebu o ran cartrefi fforddiadwy a chyflenwad tai. Trafodwyd hefyd y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran diogelwch adeiladau, gwaith cyweirio cladin, yswiriant, y marchnadoedd morgeisi a benthyca a choncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC).

Gwnaeth y grŵp gydnabod y berthynas waith gadarnhaol sydd rhwng swyddogion ar draws y meysydd tai a diogelwch adeiladau a chytunwyd i swyddogion barhau i gydweithio fel hyn.

Cadarnhawyd y bydd Llywodraeth y DU a swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cydweithio ar baratodau ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol, sydd i'w gynnal fis Mawrth / Ebrill 2024.

Gellir dod o hyd i ddatganiad y cyfarfod y cytunwyd arno gan Weinidogion [yma](#).



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

23 Ionawr 2024

Annwyl Gadeirydd

Canlyniad cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 13 Rhagfyr 2023. Yn Weinidog arweiniol ar gyfer y Grŵp hwn, gofynnais i'r Gweinidog Newid Hinsawdd fynychu'r cyfarfod ar ran Llywodraeth Cymru gan fod eitemau'r agenda yn dod o dan ei phortffolio hi.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Gweinidog Tai, Paul McLennan ASA a oedd yn bresennol ar ran Llywodraeth yr Alban. Cynrychiolwyd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gan Mark O'Donnell, y Dirprwy Ysgrifennydd Tai, Adfywio Trefol a Llywodraeth Leol; Paul Price, y Cyfarwyddwr Polisi Tai Cymdeithasol a David Polley, y Cyfarwyddwr Polisi Cyflenwad Tai. O Lywodraeth y DU, roedd Jacob Young, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro, a Lee Rowley, y Gweinidog Gwladol dros Dai, Cynllunio a Diogelwch Adeiladau yn bresennol.

Croesawodd y grŵp gyflwyniad gan yr Athro Ken Gibb o Ganolfan Gydwethredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai (CaCHE) ar ymchwil ynghylch effeithiau rheoleiddio ar y Sector Rhentu Preifat, y materion a'r heriau.

Wedi'r cyflwyniad, cafodd y grŵp gyfle i drafod yr heriau y mae pob llywodraeth yn eu hwynebu o ran cartrefi fforddiadwy a chyflenwad tai. Trafodwyd hefyd y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran diogelwch adeiladau, gwaith cyweirio cladin, yswiriant, y marchnadoedd morgesi a benthyca a choncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaeth y grŵp gydnabod y berthynas waith gadarnhaol sydd rhwng swyddogion ar draws y meysydd tai a diogelwch adeiladau a chytunwyd i swyddogion barhau i gydweithio fel hyn.

Cadarnhawyd y bydd Llywodraeth y DU a swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cydweithio ar baratodau ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol, sydd i'w gynnal fis Mawrth / Ebrill 2024.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The signature is written in a cursive, flowing style.

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government



Ein cyf: CG/PO/22/2024

Huw Irranca-Davies MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

25 Ionawr 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y caiff [Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir \(Dirymu a Diwygio\) 2023 \(Diwygio Darpariaeth\) 2023](#) ("y Rheoliadau") eu gosod gerbron Senedd y DU ar 24 Ionawr 2024.

Derbyniodd swyddogion fersiwn derfynol o'r Rheoliadau i'w hadolygu ar 18 Ionawr.

Mae'r Rheoliadau yn gymysgedd o ddarpariaeth wedi'i datganoli ac wedi'i chadw yn ôl ac nid yw'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd Senedd Cymru.

Ar ôl adolygu'r diwygiadau canlyniadol a awgrymir, nid ydym yn credu y byddai'n fwy priodol cyflwyno ein deddfwriaeth ein hunain. Mae'r Rheoliadau ond yn gwneud darpariaeth ganlyniadol a ddaw trwy adrannau 2 a 5 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Nid yw'r Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ehangach ar bolisi ac nid oes disgrisiwn polisi yn cael ei arfer mewn meysydd datganoledig yn y Rheoliadau. Yng ngoleuni hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol rhoi caniatâd i'r Rheoliadau hyn gynnwys darpariaeth ddatganoledig.

Byddaf yn rhyddhau datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau parodrwydd Llywodraeth Cymru i gydsynio i'r Rheoliadau o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gosod yn ffurfiol.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 7.1

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/20/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

19 Ionawr 2024

Annwyl Huw

**Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026
Gosod rhaglen wedi ei diwygio**

Amgaeaf gopi o raglen ddiwygiedig y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, sy'n cael ei gosod gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 2(6) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae hyn yn bodloni'r ymrwymiad a wnaed yn ddiweddar ym mharagraff 71 o Adroddiad Blynyddol 2022-23 ar y rhaglen, a anfonais atoch ar 1 Tachwedd.

Yn gywir

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 30



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyfodol cyfraith Cymru

RHAGLEN AR GYFER 2021-2026



Gosodwyd y rhaglen
wreiddiol: 21 Medi 2021

Gosodwyd y rhaglen
ddiwygiedig: 19 Ionawr 2024

Tudalen y pecyn 31



“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

Llyfr Iorwerth 1240

Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru (wedi ei diwygio)

Rhagarweiniad

1. Gosodwyd rhaglen gyntaf y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, [Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026](#), gerbron y Senedd ar 21 Medi 2021. Caniateir diwygio'r rhaglen o dan adran 2(6) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac o wneud hynny, rhaid ei gosod gerbron y Senedd.
2. Mae Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol wedi diwygio'r rhaglen yn awr i ddangos:
 - a. bod y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer cod cyfraith yr amgylchedd hanesyddol bellach yn ei lle, a bod gwaith pellach ar is-ddeddfwriaeth yn mynd rhagddo,
 - b. ymrwymiad newydd i greu cod ar gyfer cyfraith gynllunio,
 - c. manylion am brosiect newydd i wella trefniadau cyhoeddi is-ddeddfwriaeth,
 - d. ymrwymiad i foderneiddio ffurf a strwythur deddfwriaeth, a
 - e. bod rhai elfennau o'r rhaglen wedi eu cwblhau.

Crynodeb

3. Mae'r rhaglen ddiwygiedig hon i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn cynnwys prosiectau i:
 - a. Paratoi tacsonomeg o bynciau cyfraith Cymru.
 - b. Ehangu ymarferoldeb gwefan legislation.gov.uk fel y gall defnyddwyr gyrchu cyfraith Cymru yn ôl pwnc.
 - c. Drafftio Bil cydgrynhoi i ddod â'r gyfraith ar gynllunio yng Nghymru ynghyd.
 - d. Gweithredu'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gefnogi'r gwaith o gydgrynhoi'r gyfraith ar yr amgylchedd hanesyddol a chynllunio.
 - e. Paratoi Bil i ddileu darpariaethau sydd wedi darfod, wedi dod i ben, neu nad ydynt bellach o ddefnydd na budd ymarferol yng Nghymru.
 - f. Pennu cwmpas meysydd pwnc ychwanegol gyda'r bwriad o nodi prosiectau cydgrynhoi eraill.
 - g. Sicrhau bod cyfraith Cymru ar gael ar ffurf gyfoes ar wefan legislation.gov.uk, a sicrhau bod modd gweld testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth Cymru ochr yn ochr arni.
 - h. Ehangu a gwella gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales.

- i. Nodi cyfleoedd i wella hygyrchedd digidol deddfwriaeth.
 - j. Adolygu'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn datblygu deddfwriaeth ddwyieithog.
 - k. Diweddarau canllawiau ar ddrafftio deddfwriaeth, yn ôl yr angen, yn ogystal â llunio a chyhoeddi canllawiau ychwanegol ar y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â llunio Biliau cydgrynhoi.
4. Caiff y prosiectau o'r rhaglen wreiddiol sydd wedi eu cwblhau eu rhestru ar y diwedd.

Datblygu'r rhaglen

5. Ar ddiwedd 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad, "Dyfodol Cyfraith Cymru", a oedd yn nodi'r ffordd y bwriadwn fynd ati i wella hygyrchedd y gyfraith. Roedd yn esbonio bod angen cymryd y camau canlynol ar yr un pryd er mwyn gwneud cynnydd:
- a. **dosbarthu** deddfwriaeth yn ôl pwnc fel bod gennym strwythur ar gyfer gwaith yn y dyfodol a dull i ddefnyddwyr ddod o hyd i ddeddfwriaeth a'i defnyddio;
 - b. **cydgrynhoi**'r gyfraith bresennol: mae hyn yn cymryd llawer o amser ac yn gymhleth, ond bydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf arwyddocaol at wneud y gyfraith yn hygyrch;
 - c. bydd **codeiddio**'r gyfraith yn cynnal y drefn a sefydlir gennym drwy ddosbarthu a chydgrynhoi;
 - d. bydd **egluro a chyfathrebu**'r gyfraith yn arwain at gyhoeddi effeithiol, testunau cyfredol, esboniadau, canllawiau a deunyddiau eglurhaol.
6. Cymeradwyodd y Senedd uchelgais y Llywodraeth drwy basio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019"). O dan Ddeddf 2019, rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol lunio a gosod rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.
7. Rhaid i bob rhaglen wneud darpariaeth i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal cyfraith wedi'i chodeiddio, hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.
8. Fel y nodwyd yn y rhagarweiniad i'r rhaglen ddiwygiedig hon, mae adran 2(6) o Ddeddf 2019 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddiwygio'r rhaglen unrhyw bryd, ac o wneud hynny, rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol osod copi o'r rhaglen ddiwygiedig gerbron y Senedd. Dyma'r rhaglen ddiwygiedig gyntaf.

Y Rhaglen

9. Rydym wedi ystyried ymrwymadau presennol wrth lunio'r rhaglen wreiddiol a'r rhaglen ddiwygiedig - er enghraifft i gydgrynhoi'r gyfraith ar yr amgylchedd hanesyddol, ac i symleiddio a moderneiddio cyfraith gynllunio - ac wedi ceisio nodi prosiectau pellach sy'n bodloni un neu ragor o'r meini prawf a ganlyn:
- a. mae'r prosiect yn ymwneud ag un o feysydd y gyfraith y mae angen ei gydgrynhoi fwyaf am fod y gyfraith yn y maes mor gymhleth;

- b. byddai'r prosiect yn cael effaith sylweddol ar y dinesydd oherwydd natur y gyfraith dan sylw;
- c. mae'r prosiect yn ymarferol o ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni yng nghyflwr destun blaenoriaethau deddfwriaethol sy'n cystadlu â'i gilydd, yr adnoddau sydd ar gael a'r setliad datganoli presennol;
- d. mae'r prosiect yn amserol neu'n gysylltiedig mewn rhyw ffordd â gwaith disgwylidig y Llywodraeth yn ystod tymor y Senedd hon.

10. Nodir manylion pob prosiect yn y rhaglen isod.

Dosbarthu cyfraith Cymru

11. Yn y ddogfen *Dyfodol Cyfraith Cymru (2019)*, nododd y Llywodraeth ei bwriad i drefnu'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru yn ôl pwnc, a sefydlu ffordd i ddefnyddwyr ddefnyddio dulliau technolegol i ddod o hyd i ddeddfwriaeth Cymru. Mae dosbarthu'r gyfraith yn y modd hwn yn bwysig yn y lle cyntaf i helpu defnyddwyr i ddod o hyd i ddeddfwriaeth yn haws, ac yn ail, i ddarparu strwythur trefnus ar gyfer gwaith cydgrynhoi a chodeiddio yn y dyfodol.

12. Yn ystod tymor y Senedd hon byddwn yn:

- a. adolygu a diwygio'r dacsonomeg ddrafft bresennol o bynciau (a luniwyd ac yr ymgynghorwyd arni yn wreiddiol yn 2019) er mwyn canfod pa ddeddfiadau ym meysydd datganoledig y gyfraith a ddylai berthyn i bob haen o'r dacsonomeg.
- b. gweithio gyda'r tîm sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk yn yr Archifau Gwladol i ddarparu swyddogaethau ychwanegol ar y safle hwnnw fel y gall defnyddwyr gyrchu cyfraith Cymru yn ôl pwnc.

Cydgrynhoi cyfraith Cymru

13. Diben cydgrynhoi deddfwriaeth yw diwygio deddfwriaeth sydd wedi dyddio a'i diwygio'n drwm, ac sydd felly'n anhrefnus. Mae'r ddeddfwriaeth ar y rhan fwyaf o bynciau wedi lluosogi dros amser ac mae'r ffaith fod cymaint o Ddeddfau ac Offerynnau ar y pwnc yn aml yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd iddi, heb sôn am ei deall. Mae cydgrynhoi'n golygu dod â'r holl ddeddfwriaeth (sylfaenol fel rheol) ar bwnc penodol, neu'r rhan fwyaf ohoni, ynghyd fel y gellir dod o hyd iddi'n hawdd, a'i gwneud yn haws ei deall a'i chymhwyso drwy foderneiddio ei ffurf a'r modd y'i drafftiodd. Bydd cydgrynhoi yn aml yn dod â nifer o Ddeddfau presennol ar bwnc ynghyd, gan ddiweddarau a chysoni'r darpariaethau i greu un Ddeddf newydd ar y diwedd.
14. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y prosiect cydgrynhoi cyntaf (ar gyfraith yr amgylchedd hanesyddol) wedi ei chwblhau. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu llunio Biliau cydgrynhoi pellach yn ystod tymor y Senedd hon, er mwyn i Senedd Cymru graffu arnynt; os cânt eu cymeradwyo byddant yn dod yn Ddeddfau Senedd Cymru.
15. Byddwn yn datblygu Bil cydgrynhoi sy'n symleiddio ac yn moderneiddio'r gyfraith ym maes cynllunio:

Mae'r Bil hwn yn rhan bwysig o welliannau ehangach, mwy hirdymor, sydd eu hangen ar y system gynllunio. Mae angen y Bil ers tro byd, fel y dangoswyd yn glir pan ddaeth adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru i'r casgliad ei fod yn faes o'r gyfraith sydd angen sylw brys. Tynnodd yr adroddiad sylw at effeithiau niweidiol ac aneffeithlonrwydd diffyg hygyrchedd, diffyg ansawdd a chymhlethdod y gyfraith ar weithrediad y system gynllunio. Derbyniwyd yr angen i gydgrynhoi'r maes hwn o'r gyfraith a chwmpas bwriedig y Bil gan Lywodraeth flaenorol Cymru yn ei hymateb interim i'r Adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019¹, a chyhoeddwyd ymateb manwl ym mis Tachwedd 2020 yn amlinellu safbwynt y Llywodraeth ar bob un o'r 192 o argymhellion yn yr Adroddiad².

Bydd y Bil cydgrynhoi yn dod â darpariaethau sy'n ymwneud â chynllunio ynghyd o nifer o Ddeddfau, gan gynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; Deddf Cynllunio a Digolledu 1991; Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1972; Deddf yr Amgylchedd 1995; Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004; Deddf Cynllunio 2008; Deddf Cynllunio (Cymru) 2015; Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936; yn ogystal â darpariaethau perthnasol o is-ddeddfwriaeth, pan fo hynny'n briodol.

Bydd symleiddio a chydgrynhoi cyfraith gynllunio drwy'r Bil hwn yn creu system gynllunio fwy effeithlon ac effeithiol sydd wedi'i chynllunio ar gyfer anghenion penodol Cymru. Gwneir hyn drwy greu fframwaith cynllunio sy'n galluogi'r holl randdeiliaid sy'n gweithredu, yn defnyddio neu'n cymryd rhan yn y system i gyrchu a deall y gyfraith sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd yn ei gwneud yn haws i gyrff cyhoeddus a'r sector preifat ddefnyddio'r amrywiaeth o bwerau a dulliau sydd ar gael iddynt drwy ddeddfwriaeth cynllunio defnydd tir i hybu adferiad economaidd sy'n seiliedig ar werthoedd yn dilyn y pandemig.

16. Nododd y rhaglen wreiddiol y byddem hefyd yn datblygu Bil cydgrynhoi i **ddiddymu neu ddatgymhwyso** darpariaethau deddfwriaethol sydd **wedi darfod, wedi dod i ben, neu nad ydynt bellach o ddefnydd na budd ymarferol yng Nghymru** o bob cwr o'r llyfr statud. Mae'r Bil hwn yn parhau i fod yn ymrwymiad ar gyfer y rhaglen hon ond ni chaiff ei gyflwyno fel Bil cydgrynhoi bellach (yn hytrach, caiff ei gyflwyno fel Bil 'diwygio'r gyfraith')³.
17. Weithiau gelwir Biliau fel hyn yn Filiau 'diddymu cyfraith statud' ac maent wedi nodweddu deddfwriaeth Senedd y DU o dro i dro; disgwylir y bydd Bil o'r math hwn yn ymddangos yn y rhan fwyaf o raglenni i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Bydd y Bil hwn yn helpu i foderneiddio a symleiddio'r gyfraith. Mae dileu darpariaethau diangen yn helpu i dacluso'r llyfr statud, ac mae diwygio'r darpariaethau hyn fel nad ydynt bellach yn gymwys i Gymru yn helpu i greu eglurder ynghylch pa rannau o'r Statud sy'n gymwys (ac nad ydynt yn gymwys) i Gymru.
18. Bydd y Llywodraeth yn adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol mewn nifer o feysydd er mwyn nodi prosiectau cydgrynhoi eraill i gael eu datblygu yn y dyfodol. Mae'r meysydd posibl ar gyfer eu cydgrynhoi sy'n cael eu hystyried yn cynnwys:

¹ [Ymateb dros dro i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

² [Ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

³ Newid technegol yw hwn sy'n berthnasol i Reolau Sefydlog y Senedd, yn hytrach na newid i'r ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth.

- a. Rhandiroedd;
 - b. Rheoliadau Adeiladu;
 - c. Cynllunio sylweddau peryglus;
 - d. Tai;
 - e. Iechyd y cyhoedd.
19. Byddwn yn seilio ein hystyriaeth ar y meysydd hynny o'r gyfraith yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn nodi pynciau lle mae'r angen i gysoni cyfraith ddomestig a chyfraith yr UE a ddargedwir yn fwyaf taer.
20. Bydd dau brosiect arall hefyd i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a'r Bil i gydgrynhoi'r gyfraith ym maes cynllunio:
- a. pecyn o is-ddeddfwriaeth sydd ei angen i weithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Er bod Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 bellach yn gyfraith, ni chaiff ei chychwyn tan yn ddiweddarach yn 2024, ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i'w hategu gael ei dwyn i rym. Ymgorfforwyd llawer iawn o is-ddeddfwriaeth a oedd wedi'i hen sefydlu yn y Ddeddf, ond mae angen ailddatgan llawer o hyd mewn sawl set o reoliadau sy'n ymdrin ag ystod o faterion gweithdrefnol a materion eraill sy'n effeithio ar henebion ac adeiladau rhestredig.
 - b. prosiect graddol o gydgrynhoi is-ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref allweddol.

Mae angen cydgrynhoi rhywfaint o'r ddeddfwriaeth hon oherwydd ei hoed (sy'n golygu bod angen moderneiddio'r iaith a'r fformat), ond hefyd oherwydd nifer y diwygiadau a wnaed iddi dros y blynyddoedd sy'n effeithio ar eu hygyrchedd. Cynhelir dadansoddiad llawnach ar ôl gorffen drafftio'r Bil cydgrynhoi, ond mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys:

 - i. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987;
 - ii. Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992;
 - iii. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992;
 - iv. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995;
 - v. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999; a
 - vi. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.
21. Fel rhan o waith tymor y Senedd hon, byddwn hefyd yn ceisio nodi cyfleoedd eraill i gydgrynhoi a diweddarau is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, llunio 'Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl' yn ddwyieithog cyn yr etholiad cyffredinol i'r Senedd yn 2026.

22. Ar hyn o bryd mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, offeryn uniaith Saesneg, yn nodi'r modd y cynhelir yr etholiad a'r ymgyrch etholiadol ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer her gyfreithiol. Fe'i diwygiwyd dro ar ôl tro ac nid oes fersiwn wedi'i diweddarau ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd. Caiff y ddeddfwriaeth hon ei chydgrynhai a'i hail-wneud yn ddwyieithog cyn etholiad y Senedd.

Codeiddio

23. Pan fyddwn wedi categorieiddio cyfraith Cymru drwy'r broses ddsbarthu, ac wedi gwneud cynnydd o ran cydgrynhai rhai o feysydd y gyfraith, mae'n bwysig cadw'r drefn a fydd wedi'i sefydlu. I wneud hyn rydym yn bwriadu codeiddio'r gyfraith. Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn esbonio bod 'codeiddio cyfraith Cymru' yn cynnwys:

- a. mabwysiadu strwythur ar gyfer cyfraith Cymru sy'n gwella ei hygyrchedd;
- b. trefnu a chyhoeddi cyfraith Cymru sydd wedi'i chydgrynhai yn ôl y strwythur hwnnw.

24. Yn ymarferol, mae codeiddio yn golygu cyhoeddi'r gyfraith ar bynciau penodol gyda'i gilydd mewn un lle a chymryd camau i ddiogelu strwythur y ddeddfwriaeth ar bwnc penodol unwaith y bydd wedi'i rhoi mewn trefn. Felly, os oes gennym un Ddeddf ar bwnc penodol, naill ai am ei bod wedi'i chydgrynhai neu am fod y gyfraith yn y maes hwnnw wedi'i diwygio drwyddi draw, dylem barhau i fod ag un Ddeddf. Os oes bwriad i newid y gyfraith ar y pwnc, dylid gwneud y newid hwnnw drwy ddiwygio'r Ddeddf honno, nid drwy wneud un newydd ochr yn ochr â hi, oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny.

25. Mae cydgrynhai cyfraith yr amgylchedd hanesyddol yn golygu bod Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn ffurfio rhan o god cyfraith yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Bydd y cod hwn hefyd yn cynnwys yr is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf 2023 (gweler paragraff 20.a).

26. Yn ogystal â hynny, yn ystod tymor y Senedd hon rydym yn bwriadu creu cod ar gyfer cynllunio yng Nghymru drwy gydgrynhau'r gyfraith ym maes cynllunio. Er bod cynnwys terfynol y cod hwnnw eto i'w bennu, bwriedir i'r datganiad o'r statws hwn helpu'r rheini sydd â diddordeb yn y gyfraith yn y maes hwn ddod o hyd iddi a'i dosbarthu'n rhwyddach. Bydd y cod hwn ar gyfraith gynllunio hefyd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth.

Cyfathrebu ac egluro

27. Ail-wneud y gyfraith y mae'r prosiectau a nodir uchod, ond mae technegau cyfathrebu modern, ynghyd â disgwyliadau defnyddwyr deddfwriaeth, yn golygu bod y gyfraith ei hun yn cael ei hategu fel mater o drefn gan wybodaeth ychwanegol sy'n helpu i egluro effaith ac ystyr y gyfraith.

28. Yn ystod tymor y Senedd hon byddwn yn ceisio gwella'r modd y caiff y gyfraith a gwybodaeth am y gyfraith eu cyhoeddi yn rhad ac am ddim. Byddwn yn:

- a. Gweithio gyda'r tîm sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk i sicrhau bod Deddfau ac Offerynnau Statudol dwyieithog ar gael ar ffurf gyfoes yn y ddwy iaith.

Gan fod swyddogaeth safle legislation.gov.uk bellach wedi ei uwchraddio fel bod modd diweddarau testunau deddfwriaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, byddwn yn parhau i weithio gyda thîm legislation.gov.uk i sicrhau bod testunau cyfraith Cymru ar y safle, yn y naill iaith a'r llall, yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth ar ôl iddi gael ei gwneud yn wreiddiol.

- b. Ehangu a gwella cynnwys gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales yn sylweddol er mwyn creu 'siop un stop' i gyrchu a deall cyfraith Cymru.

Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn hefyd yn archwilio'r gwersi a ddaeth i'r amlwg wrth ddeddfu yn ystod pandemig y coronafeirws i wella'r ffordd yr ydym yn egluro'r gyfraith, er enghraifft drwy weithio ochr yn ochr ag arbenigwyr cyfathrebu i gynhyrchu canllawiau penodol a sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau wrth i ddeddfwriaeth newid; drwy sicrhau bod fersiynau wedi'u diweddarau o ddeddfwriaeth allweddol (gan gynnwys nodiadau esboniadol) yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar-lein; drwy gyhoeddi dogfennau "cwestiwn ac ateb", rhai wedi'u hanelu at grwpiau rhanddeiliaid penodol, gan sicrhau bod negeseuon syml, cyson a chyfreithiol gywir yn cael eu cyfleu.

- c. Archwilio ffyrdd o symud draw o fodel cyhoeddi deddfwriaeth yr 20fed ganrif, sy'n seiliedig ar fersiynau print, i system ddigidol fodern. Bydd hyn yn cynnwys ystyried datrysiadau technolegol ar gyfer gweld a dehongli deddfwriaeth ddwyieithog a symud i ffwrdd o fformat brint, colofn ddeuol Offerynnau Statudol. Rydym yn awyddus i bwysleisio bod deddfwriaeth yn cael ei gwneud yn ddwyieithog yng Nghymru, a bod statws cyfartal i'r naill destun a'r llall.
- d. Ceisio cryfhau'r trefniadau sy'n cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi (yn electronig) is-ddeddfwriaeth a wneir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru, ar ffurf heblaw Offeryn Statudol. Gallai hyn gynnwys trefniadau newydd ar gyfer catalogio, rhestru a chadw'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod ar gael, fel bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r gyfraith a oedd mewn grym ar unrhyw adeg benodol.
- e. Datblygu'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn llunio deddfwriaeth ddwyieithog, gan ddefnyddio technoleg iaith i'w llawn botensial wrth inni geisio gwella effeithlonrwydd, parhau i sicrhau cywirdeb a defnyddio cystrawen naturiol ac 'iaith glir'. Byddwn yn parhau i:
 - i. cyflymu'r broses o gyhoeddi terminoleg ddeddfwriaethol Gymraeg safonedig ychwanegol ar TermCymru;
 - ii. nodi sut y gall system gyfieithu a chyfieithu peirianyddol newydd y Llywodraeth ein galluogi i weithio'n fwy effeithlon, tynnu sylw at welliannau y gellir eu gwneud i'r testun gwreiddiol, a hwyluso gwell ymgynghori ar dermau technegol;
 - iii. adolygu'r canllawiau arddull mewnol i nodi cyfleoedd i wneud y testun yn gliriach ac yn fwy naturiol yn y ddwy iaith;

- iv. cytuno ar brosesau i gyfieithwyr deddfwriaethol a chwsleriaid deddfwriaethol gydweithio i wella'r drafft gwreiddiol yn ogystal â sicrhau bod y cyfieithiad yn gywir; a
 - v. mireinio sgiliau golygyddol drwy rannu arbenigedd rhwng cyfieithwyr deddfwriaethol a chwsleriaid deddfwriaethol.
- f. Parhau i archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.
29. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi paratoi canllawiau ar ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol. Er mai canllawiau mewnol ar gyfer Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yw'r rhain, fe'u cyhoeddwyd i helpu pobl i ddeall y broses deddfu a'r ffordd y caiff deddfwriaeth ei datblygu a'i drafftio. Yn ystod tymor y Senedd hon mae'r Llywodraeth yn bwriadu adolygu a diweddarau, yn ôl yr angen:
- a. Y Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd a'r Llawlyfr Deddfwriaeth ar Is-ddeddfwriaeth;
 - b. Datrysiadau Deddfwriaethol Cyffredin (canllawiau sy'n helpu swyddogion cyhoeddus i ddeall materion sy'n codi'n fynych a dysgu o'r hyn a wnaed yn y gorffennol i'w datrys);
 - c. Drafftio Deddfau i Gymru (canllawiau drafftio deddfwriaethol Swyddfa'r Cwsleriaid Deddfwriaethol).

Byddwn hefyd yn llunio ac yn cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â llunio Biliau cydgrynhoi.

Prosiectau eraill

Gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith

30. Byddwn yn parhau i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr i nodi un neu fwy o brosiectau sy'n ymwneud â chyfraith Cymru i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith pellach.
31. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyfeirio prosiect at Gomisiwn y Gyfraith i gefnogi symleiddio a moderneiddio'r gyfraith ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru.

Ffurf a strwythur deddfwriaeth Cymru

32. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar rai newidiadau arfaethedig i ffurf a strwythur deddfwriaeth Cymru, gyda golwg ar gytuno ar unrhyw newidiadau terfynol gyda'r Llywydd (pan fo'r newidiadau hynny'n effeithio ar ffurf Biliau'r Senedd), Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin, y Llyfrfa, yr Archifau Gwladol (pe byddai'r newidiadau yn effeithio ar argraffu a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru), ac eraill fel y bo'n briodol.
33. Rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad yn ymdrin â'r canlynol:

- a. a oes angen enw 'hir' ac enw 'byr' ar Fil/Deddf y Senedd;

- b. darpariaethau trosolwg ym Miliâu/Deddfau'r Senedd;
- c. symleiddio neu hepgor y geiriau deddfu yn Neddfau'r Senedd;
- d. y defnydd a'r disgrifiadau o ddyddiadau yn Neddfau'r Senedd (er enghraifft, mewn perthynas â dyddiad y Cydsyniad Brenhinol);
- e. mabwysiadu cymhorthion llywio yn Neddfau'r Senedd, ac Offerynnau Statudol Cymru hefyd o bosibl, megis ychwanegu penynnau at y ddogfen i ddangos y Rhan neu'r Atodlen berthnasol;
- f. y ffurfdeip a ddefnyddir yn Neddfau'r Senedd ac yn Offerynnau Statudol Cymru;
- g. mabwysiadu dulliau sy'n cefnogi gwella hygyrchedd digidol ar argraffedig.

Adrodd ar y rhaglen

34. O dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'n ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar gynnydd y rhaglen. Mae'r ddau adroddiad blynyddol cyntaf wedi eu cyhoeddi a chaiff yr adroddiad nesaf ei gyhoeddi yn yr hydref 2024.

Prosiectau sydd wedi eu cwblhau

35. Mae'r prosiectau a ganlyn o'r rhaglen wreiddiol wedi eu cwblhau:

- a. Drafftio Bil cydgrynhoi i ddod â'r gyfraith ym maes yr Amgylchedd Hanesyddol ynghyd mewn un statud.

Mae'r ymrwymiad hwn wedi ei gyflawni yn sgil pasio Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ar 28 Mawrth 2023, a'r Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023.

- b. Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn ffurfio cod y gyfraith.

Mae'r ymrwymiad hwn wedi ei gyflawni (gweler adran 1(1) o Ddeddf 2023). Caiff offerynnau deddfwriaethau pellach eu cynnwys yn y cod maes o law - gweler uchod ar gyfer ymrwymadau o ran is-ddeddfwriaeth.

- c. Ailwneud a diweddarau'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r ymrwymiad hwn wedi ei gyflawni yn sgil gwneud Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 a Rheoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol) (Cymru) 2022. Cafodd y Rheolau, a'r rheoliadau dilynol, eu defnyddio i gynnal etholiadau lleol yng Nghymru ym mis Mai 2022.

- d. Archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.

Cynhaliwyd prosiect cyfnod penodol yn 2021-22 i archwilio i ba raddau y mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio i lunio deddfwriaeth, a hynny o fewn Llywodraeth Cymru a thu hwnt. Daeth y prosiect i'r casgliad nad oedd deallusrwydd artiffisial, yn ei gyflwr presennol, yn ddigon datblygedig i gael ei ddefnyddio yn y ffordd hon. Gan fod y maes hwn yn datblygu mor gyflym, fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i wneud gwaith pellach sy'n canolbwyntio ar agweddau o'r hyn a ddysgwyd o'r ymchwil gynnar hon, os a phryd y bydd adnodd ar gael.

e. Datblygu'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn datblygu deddfwriaeth ddwyieithog.

Mae rhai agweddau o'r gwaith hwn wedi eu cwblhau, fel a ganlyn:

- i. prosiect i gymharu'r termau deddfwriaethol yng nghronfa ddata terminoleg ar-lein y Gwasanaeth Cyfieithu, TermCymru, â'r Eirfa Ddrafftio, er mwyn sicrhau cysondeb llwyr rhwng y ddwy gronfa dermau;
